# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 31 Mawrth 2025

Amser: 10.35 - 15.24

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14867

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Claire Fife, Llywodraeth Cymru<br>Julie James AS, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) – trafodion Cyfnod 2

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, gwaredodd y Pwyllgor y gwelliannau a ganlyn i'r Bil:

**Gwelliant 23 (Adam Price)**

| **O Blaid** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Adam Price | Mike Hedges | |
| | Alun Davies | |
| **Gwrthodwyd gwelliant 23.** | | |

Roedd Laura Anne Jones yn absennol ar gyfer ystyried gwelliant 23 a phleidleisio arno.

**Gwelliant 24 (Adam Price)**

| **O Blaid** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Adam Price | Mike Hedges | |
| | Alun Davies | |
| **Gwrthodwyd gwelliant 24.** | | |

Roedd Laura Anne Jones yn absennol ar gyfer ystyried gwelliant 24 a phleidleisio arno.

Gan na dderbyniwyd gwelliant 24, methodd gwelliannau 25 i 32.

**Gwelliant 33 (Adam Price)**

| **O Blaid** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Adam Price | Mike Hedges | |
| Laura Anne Jones | Alun Davies | |
| **Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii). Gan hynny, gwrthodwyd gwelliant 33.** | | |

Derbyniwyd **gwelliant 2 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 3 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 4 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 5 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 6 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 7 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 8 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 9 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 10 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 11 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 12 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 13 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 14 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 15 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Gwelliant 34 (Adam Price)**

| **O Blaid** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Adam Price | Mike Hedges | |
| | Alun Davies | |
| | Laura Anne Jones | |
| **Gwrthodwyd gwelliant 34.** | | |

Gwaredwyd gwelliannau 16 i 21 gyda'i gilydd. **Derbyniwyd gwelliannau 16 i 21 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

**Gwelliant 22 (Julie James)**

| **O Blaid** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Mike Hedges | Laura Anne Jones | |
| Alun Davies | | |
| Adam Price | | |
| **Derbyniwyd gwelliant 22.** | | |

Tynnwyd **gwelliant 35 (Adam Price)** yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog 26.66(i)

**Gwelliant 1 (Paul Davies)**

| **O Blaid** | **Yn Erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|
| Laura Anne Jones | Mike Hedges | |
| Adam Price | Alun Davies | |
| **Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 6.20(ii). Gan hynny, gwrthodwyd gwelliant 1.** | | |

Ni chynigiwyd **gwelliant 36 (Adam Price AS).**

Gan y gwaredwyd pob gwelliant, cadarnhaodd y Cadeirydd fod trafodion Cyfnod 2 wedi'u cwblhau.

Yn ystod y trafodion, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithdrefnau craffu ar gyfer offerynnau statudol Cymru. Ymrwymodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd i rannu rhagor o fanylion gyda'r Pwyllgor am waith archwilio y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas â diddymu is-ddeddfwriaeth yn rhannol.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)602 – Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)604 – Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)601 – Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Peilota) (Cymru) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 5.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a’r Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru.

### 5.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2025

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

# 6 Papurau i'w nodi

## 6.1 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at y Llywydd: Y Bil Troseddu a Phlismona

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

## 6.2 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2).

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru.

# 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

# 8 Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru): Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft, yn amodol ar fân newidiadau i'w cytuno gan y Cadeirydd y tu allan i'r Pwyllgor.

# 9 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd Meddwl: Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

# 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad): Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 11 Gohebiaeth at y Pwyllgor Busnes: Adolygiad o’r prosesau Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod

Ystyriodd y Pwyllgor gyflwyniad drafft i’r Pwyllgor Busnes mewn perthynas â’i adolygiad o’r prosesau Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod, a chytunodd i’w ystyried eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Blaengynllunio Gwaith

Trafododd y Pwyllgor ei raglen waith ar gyfer y misoedd nesaf.

## 13 Adolygiad o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020: Trafod yr ymateb drafft

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor yr ymateb drafft i ymgynghoriad yr Adran Busnes a Masnach ar ei Adolygiad o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, yn amodol ar fân newid i'w gytuno gan y Cadeirydd y tu allan i'r Pwyllgor.

## 14 Gohebiaeth gan y Comisiwn Dŵr Annibynnol: Galwad am dystiolaeth

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor yr ymateb drafft i alwad y Comisiwn Dŵr Annibynnol am dystiolaeth.